**Atodiad 2**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2012 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Yn Ebrill 2011 mabwysiadwyd Côd Llywodraethu Lleol. Mae'r côd Lleol yn seiliedig ar chwech egwyddor craidd Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer llywodraethu corfforaethol mewn awdurdodau lleol a'u hegwyddorion cefnogol, oedd yn eu tro wedi eu haddasu o *Safon Genedlaethol ar Gyfer Llywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus* a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Annibynnol ar Lywodraethu Da mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2004. Mae Fframwaith CIPFA/SOLACE yn nodi'r anghenion ar gyfer cwrdd a'r egwyddorion a'r hyn a ddylid ei adlewyrchu mewn côd llywodraethu lleol.

Mae elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

**Egwyddor Graidd 1: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).**

**Y polisiau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Graidd 1 yw:**

**<u>Gwerthoedd y Cyngor.</u>**

Gwerthoedd Cyngor Gwynedd yw:

- **Gwasanaethu**
- **Positif**
- **Gweithio fel tîm**
- **Gwerth am arian**
- **Parch**

**<u>Y Strategaeth Gymunedol</u>**

Mae 'Gwynedd ar y Cyd' - partneriaeth strategol o asiantaethau allweddol ar draws y Sir - wedi datblygu Strategaeth Gymunedol Gwynedd, "Gwella Gwynedd gyda'n Gilydd". Pwrpas y Strategaeth Gymunedol yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd. Datblygwyd y Strategaeth Gymunedol a Chynllun tair Blynedd y Cyngor ar y cyd trwy ystyried, gyda phartneriaid, y materion sydd bwysicaf i'r gymuned a chyd-ymgysylltu ac ymgynghori ar y materion hynny.

**<u>Cynllun Tair Blynedd y Cyngor</u>**

Mae amcanion y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid oddi fewn i Gynllun Tair Blynedd y Cyngor wedi cael eu cyd-datblygu gyda'r Strategaeth Gymunedol a maent yn cefnogi gwaith a gweledigaeth y Strategaeth. Nod y Cyngor yw ceisio'r "Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory". Mabwysiadwyd Cynllun Tair Blynedd ar gyfer 2011-14 ar 12 Mai 2011.

**<u>Datganiad o'r cyfrifon</u>**

Caiff cyfrifon y Cyngor eu paratoi yn unol â safonau disgwyliedig. Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ac adolygiadau i'r rheiny, yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill - roedd nifer o ofynion newydd SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2010/11.

Mae trefniadau yn eu lle i ddosbarthu gwybodaeth ac amserlenni er mwyn paratoi, cyflwyno ac ardystio'r datgniad o'r cyfrifon yn unol â chanllawiau statudol.

**<u>Strategaeth ariannol</u>**

Cyflwynir Strategaeth Ariannol Tymor-Canol i'r Cyngor yn flynyddol yn ei gyfarfod Chwefror / Mawrth.

**Y drefn gwynion**

Mae'r Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno trefn safonol ar hyd y cyngor i ddeilio gyda chwynion.

**Y gyfundrefn rheoli perfformiad**

Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod mesuryddion ac uchelgais perfformiad wedi eu datblygu ar draws yr awdurdod. Defnyddir meddalwedd Ffynnon er mwyn cofnodi perfformiad ac adrodd arno.

**Y côd Llywodraethu Lleol**

Mae'r Côd Llywodraethu a fabwysiadwyd yn Ebrill 2011 bellach yn fframwaith ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Llythyr blynyddol yr Archwiliwr Allanol**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) i bob awdurdod lleol, a bydd rhai o'r materion yr adroddwyd yn draddodiadol arnynt yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Cyn hynny, bydd Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'i gyfrifoldebau statudol mewn llythyr sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd hefyd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

**Egwyddor Graidd 2: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.**

**Y polisiau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Craidd 2 yw:**

**Cynlluniau dirprwyo i bwyllgorau, arweinyddion portffolio a swyddogion**

Yn ystod 2011/12, roedd Rhan 3 (Cyfrifoldeb am Swyddogaethau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys manylion am y cynlluniau dirprwyo hawliau i bwyllgorau, aelodau a swyddogion y Cyngor ynghyd â dosbarthiad o swyddogaethau nad oeddynt yn gyfrifoldeb i Fwrdd y Cyngor.

Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys protocol ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau. Mae'r protocol yn manylu ar bwrpas a dyletswyddau'r aelodau, Cadeirydd, Is-gadeirydd, arweinyddion portffolio, uwch arweinyddion ac Arweinydd y Cyngor.

**Taflenni penderfyniad**

Cyn i Arweinyddion Portffolio weithredu eu pŵer dirprwyedig, caiff taflen penderfyniad ei chyhoeddi sy'n nodi'r penderfyniad, y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw, unrhyw ystyriaethau neu ddadleuon eraill (gan gynnwys goblygiadau polisi ar y penderfyniad), yn ogystal â sylwadau'r swyddogion statudol ac unigolion perthnasol eraill.

**Strwythr Reoli**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strwythur rheoli sy'n cynnwys Prif Weithredwr (sydd hefyd yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a thri Cyfarwyddwr Corfforaethol. Gyda'i gilydd, nhw yw Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol y Cyngor. Mae aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ynghyd â'r Swyddog Monitro a'r Pennaeth Cyllid yn ffurfio Grwp Arweinyddiaeth y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi enwebu'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol fel y Swyddog Monitro yn unol ag Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r Pennaeth Cyllid fel y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Disgrifiad o rolau a chyfrifoldebau aelodau**

Mae Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys:

- Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Aelodau (h.y. swydd-ddisgrifiadau)
- Protocolau ar weithredu dyletswyddau statudol y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid a Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Protocol ar gyfer cysylltiadau Aelod / Swyddog

**Cynllun lwfansau aelodau**

Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio Cynllun Lwfansau Aelodau ar sail Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007.

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13 Mai 2010, diwygiwyd Cynllun Lwfansau Aelodau'r Cyngor i adlewyrchu adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Lwfansau Aelodau.

**Egwyddor Graidd 3: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.**

**Y polisiau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Graidd 3 yw:**

**Côd Ymddygiad Aelodau**

Mae'r côd Ymddygiad ar gyfer aelodau'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod yng Nghymru.

**Côd Ymddygiad Swyddogion**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Gorchymyn côd Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2001" fel côd ymddygiad ar gyfer ei holl staff.

**Safon Gwynedd**

Mabwysiadwyd dogfen "Safon Gwynedd" gan y Cyngor llawn ar 21 Hydref 2010. Mae'r ddogfen yma yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

**Rheolau gweithdrefn y Pwyllgor Safonau**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu "Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001" i reoli gweithdrefnau'r Pwyllgor Safonau.

**Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd**

Mabwysiadwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Gwrth-Dwyll a Gwrthlygredd gan y Pwyllgor Archwilio ar 29 Mehefin 2009. Pwrpas y Strategaeth Gwrth-Dwyll a Gwrth-Lygredigaeth yw darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd tuag at dwyll a llygredd a'r rhai sydd yn gweithredu, neu'n ceisio gweithredu, twyll neu lygredd yn erbyn Cyngor Gwynedd a'r trethdalwr.

**Rheolau gweithdrefn y Cyngor**

Mae Rheolau Gweithdrefn y Cyngor wedi eu cynnwys yn Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefn) Cyfansoddiad y Cyngor. Mae Rhan 4 y Cyfansoddiad hefyd yn cynnwys y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

**Rheolaeth ariannol**

Mae rôl y Prif Swyddog Cyllid o fewn Cyngor Gwynedd yn cydymffurfio gyda pob un o ofynion llywodraethu Datganiad CIFPA ar *Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol* (2010).

Disgwylir i archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor adrodd i'r swyddogion perthnasol ar unrhyw fethiant i gydymffurfio naill ai â pholisi neu ddeddfwriaeth, ac adrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r penaethiaid adran yn derbyn copi o bob adroddiad archwiliad mewnol perthnasol, ac adroddir i'r Pwyllgor Archwilio ar ganlyniadau gwaith dilyniant ar argymhellion gyda golwg ar uchafu ardrawiad y gwaith archwilio.

**Y drefn werthuso**

Mae'r broses Adolygu Perfformiad yn rhan o System Rheoli Perfformiad Cyngor Gwynedd sy'n cefnogi gwerthoedd y Cyngor a welir ar ddechrau'r ddogfen hon a gweledigaeth y Cyngor o "Wella Gwynedd". Disgwylir i holl swyddogion y Cyngor fod yn destun gwerthusiad o leiaf unwaith y flwyddyn.

**Cynllun archwilio mewnol**

Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.

Roedd Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12 yn seiliedig ar Stategaeth Archwilio Mewnol 2008-11 (wedi ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol). Roedd y cynllun terfynol yn cynnwys 113 darn o waith.

Yn unol â gofynion côd Ymarfer CIPFA, mae'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn paratoi adroddiad blynyddol sydd yn crynhoi canlyniad gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yn yr awdurdod.

Cymeradwywd Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-2015 gan y Pwyllgor Archwilio ar 13 Chwefror 2012. Mae'r Strategaeth wedi ei osod ar ffurf sydd yn dilyn Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006.

**Rhoddion a Lletygarwch**

Mae Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys:

- Polisi Rhoddion a Lletygarwch i Swyddogion
- Protocol Rhoddion a Lletygarwch - Aelodau
- Polisi buddiannau swyddogion

**Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.**

Mae Pwyllgor Safonau wedi ei sefydlu yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau y gwarchodir safonau ymddygiad o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor.

Cymeradwywyd ail Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, ar gyfer y cyfnod o fis Hydref 2010 hyd at ddiwedd mis Medi 2011, gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2012.

**Egwyddor Graidd 4: Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg.**

**Y polisiau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Graidd 4 yw:**

**Strategaeth rheoli risg**

Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg o fewn yr Adran Cyllid wedi datblygu Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer yr awdurdod cyfan. Mae'r polisi a'r strategaeth wedi eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol gyda'r amcan o sicrhau fod rheolaeth o risgiau wedi eu gwelyo'n ffurfiol ym mhob agwedd o waith yr Awdurdod. Mae proses barhaus o sicrhau fod pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant ar adnabod bygythiadau a chyfleon yn y modd yma, gydag adnabod risgiau a datblygu cynlluniau gweithredu yn rhan o gylch cynllunio busnes yr Awdurdod.

**Rheolau gweithdrefn trosolwg a chraffu**

Mae Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefn) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu, er mwyn gosod canllawiau ar bwrpas y pwyllgorau craffu, a'u dulliau gweithredu.

**Rheolau gweithdrefn mynediad at wybodaeth pwyllgorau**

Mae Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefn) Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau.

Nid yw'r rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau mwy penodol i wybodaeth a gynhwysir mewn man arall yn y Cyfansoddiad hwn neu'r gyfraith.

**Strategaeth trosolwg a chraffu**

Roedd Strategaeth Trosolwg a Chraffu 2009/12 yn parhau'n weithredol yn ystod 2011/12. Bwriad y Strategaeth oedd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o bwrpas, gweledigaeth a dulliau gweithredu swyddogaeth trosolwg a chraffu Cyngor Gwynedd, a rôl allweddol y swyddogaeth honno yng nghyswllt adnabod a gwireddu blaenoriaethau'r Cyngor.

**Rhaglen hyfforddi aelodau**

Roedd rhaglen hyfforddi aelodau yn weithredol yn ystod 2011/12, gyda gwaith pellach yn mynd yn ei flaen yn ystod y cyfnod er mwyn paratoi ar gyfer aelodau newydd yn dilyn etholiad Mai 2012.

**Hyfforddiant Trefniadau Cyfansoddiadol**

Mae cwrs hyfforddiant ar drefniadau cyfansoddiadol yr Awdurdod wedi ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddi gorfforaethol i swyddogion.

**Cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio**

Yn ystod 2011/12 roedd gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio oedd yn cyflawni swyddogaethau yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

**Taflenni penderfyniad**

Mae Taflenni Penderfyniad Bwrdd y Cyngor a Thaflenni Penderfyniad Arweinyddion Portffolio yn unol â'r Drefn Dirprwyo i Arweinyddion Portffolio yn ymddangos ar wefan y Cyngor.

**Cofnodion pwyllgorau**

Mae holl gofnodion pwyllgorau'r Cyngor yn ymddangos ar wefan y Cyngor ac mewn cyfrolau cofnodion, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth Pwyllgorau.

**Côd Ymarfer "Canu'r Gloch"**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi a Threfniadau Canu'r Gloch, cynllun sy'n rhoi ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn yn ddidwyll am unrhyw bryderon am ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camweinyddu ariannol, perygl i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid, ayb. Yn ystod mis Mai 2009 dosbarthwyd cerdyn sydd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y drefn canu'r gloch i holl swyddogion y Cyngor.

**Cofrestr Risgiau Corfforaethol**

Mae pob adroddiad Pwyllgor sydd â phenderfyniad gweithredol yn mynd gerbron y 3 swyddog statudol am sylwadaeth.

Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn gosod allan yn glir y bwriad i gynnal gwasanaeth sy'n cynnal archwiliadau ar sail risg, a'r ddibyniaeth a roddir ar y trefniadau rheoli risg corfforaethol wrth gynllunio gwaith Archwilio Mewnol.

Disgwylir i reolwyr fod yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n berthnasol i'w meysydd hwy. Mae hynny wedi ei ymgorffori yn y Strategaeth Rheoli Risg. Disgwylir i swydd-ddisgrifiadau gynnwys cyfeiriad penodol at rai risgiau, yn arbennig felly ym meysydd Iechyd a Diogelwch a Chydraddoldeb.

**Egwyddor craidd 5: Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.**

**Y polisiau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Craidd 5 yw:**

**Strategaeth hyfforddi aelodau**

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu a datblygu'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mai 2009.

**Cynllun datblygu a hyfforddi swyddogion**

Mae rhaglen hyfforddi yn ei le ar gyfer pob swyddog o'r Cyngor, gyda'r weledigaeth o fod "y sefydliad dysgu gorau yng Nghymru sydd yn cynnig cyfleoedd dysgu a datblygu arloesol i'w holl staff i ennill y wybodaeth, y sgiliau, y profiadau, y ddealltwriaeth a'r cymwysterau sydd yn ddisgwyliedig i allu darparu'r gwasanaeth gorau bosib i bobl Gwynedd".

Mae'r Cyngor wedi dylunio matrics hyfforddi ar gyfer swyddogion ac wedi dynodi 6 categori hyfforddi: Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Penaethiaid, Rheolwyr, Arweinwyr Maes, Goruchwylwyr, Staff a Gweithwyr Uniongyrchol. Defnyddiwyd nodweddion penodol ar gyfer adnabod categori hyfforddi priodol aelod o staff. Mae rhaglen hyfforddi wedi ei lunio ar gyfer pob categori.

**Y drefn recriwtio**

Mae'r Adran Adnoddau Dynol wedi datblygu, ac yn cynnal, trefniadau recriwtio'r Cyngor, gan roi canllawiau clir i swyddogion a rheolwyr er mwyn sicrhau trefniadau recriwtio teg a thryloyw.

**Fframwaith cymwyseddau rheoli**

Datblygwyd y Fframwaith Cymwyseddau Corfforaethol er mwyn rhoi arweiniad clir i staff ynglŷn â'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt, ac mae'n addas ar gyfer staff ar draws y Cyngor cyfan. Mae'r fframwaith yn cefnogi Gwerthoedd y Cyngor ac yn cysylltu'n uniongyrchol gyda systemau/gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt Adolygu Perfformiad ("Gwerthuso") a Hyfforddi a Datblygu.

Mae'r Fframwaith yn disgrifio pa fathau o ymddygiad yr hoffai'r Cyngor weld staff yn eu harddangos wrth gyflawni eu dyletswyddau yn arddull Cyngor Gwynedd er mwyn byw y Gwerthoedd.

**Egwyddor craidd 6: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.**

**Y polisiau strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n cefnogi Cyngor Gwynedd wrth ymlynu at Egwyddor Craidd 6 yw:**

**Adroddiad blynyddol craffu**

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi, yn Erthygl 6, yr angen "i'r Pwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ynglŷn â sut y maent yn gweithio, a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol, a dulliau gwaith diwygiedig os yn briodol".

**Côd Ymarfer Cynllunio.**

Mae'r Côd Ymarfer Cynllunio a Hawliau Dirprwyedig Swyddogion wedi ei gynnwys o fewn Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) Cyfansoddiad y Cyngor. Bwriad y Côd Ymarfer yw arwain y gweithdrefnau a ddefnyddir gan aelodau a swyddogion y Cyngor i ymdrin â materion cynllunio ac i osod safonau o ran y priodoldeb a'r ymddygiad y gall pobl Gwynedd eu disgwyl ganddynt.

**Adroddiad blynyddol "Cyrhaeddiad y Cyngor".**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei lwyddiannau a methiannau, sef y Cynllun Gwella.

**Y Strategaeth Gymunedol "Gwynedd ar y Cyd".**

Cynhelir cyfarfod blynyddol Gwynedd ar y Cyd, ble mae cyfle i drigolion Gwynedd gael adborth am y gwaith sydd wedi ei gyflawni ac i gyfrannu tuag at y camau nesaf o'r bartneriaeth.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae cyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd o system rheolaeth fewnol yn cael ei hysbysu drwy waith archwilio mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod, sy'n gyfrifol am ddatblygiad a'r gynhaliaeth o'r amgylchedd llywodraethu, ac yn ogystal drwy sylwadau gan archwilwyr allanol, asiantaethau ac arolygwyr eraill.

Cynhaliwyd yr adolygiad a ddisgrifir yma trwy adolygu darganfyddiadau archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor, a thrwy drafodaeth gyda swyddogion allweddol o fewn yr awdurdod. Mae'r broses sydd wedi ei ddefnyddio i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

**Egwyddor Graidd 1: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar y deilliannau i'r gymuned a chreu a gweithredu gweledigaeth yr ardal leol (yn cynnwys dinasyddion a defnyddwyr i'r gwasanaeth).**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Gwerthoedd y Cyngor.** Arhosodd Gwerthoedd y Cyngor yn gyson yn ystod 2011/12. Er mwyn sicrhau fod y gwerthoedd y Cyngor yn cael eu pwysleisio, cânt eu defnyddio ar waelod gohebiaeth, ar fewnrwyd y Cyngor ac ar gyhoeddiadau.

**Y Strategaeth Gymunedol.** Bu'r Strategaeth Gymunedol yn destun ymgynghoriad yn ystod 2011/12. Cyflwynwyd Strategaeth ddrafft i'r Prif Bwyllgor Craffu yng Ngorffennaf 2011 a cyhoeddywd fersiwn derfynol o'r Strategaeth, sydd yn cymryd lle'r holl brif stratagethau partneriaethol, yn hydref 2011.

**Cynllun Tair Blynedd y Cyngor.** Cymeradwywyd Cynllun Tair Blynedd 2011/14 gan y Cyngor llawn ar 12 Mai 2011. Cafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn, a cyflwynwyd adolygiad cychwynnol i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 8 Rhagfyr 2011, gyda dealltwriaeth glir na fyddai'r adolygiad ffurfiol cyntaf yn cael gynnal tan ar ôl etholiad Mai 2012.

Roedd Bwrdd Rhaglen ar gyfer pob un o'r prif faterion yn y Cynllun Tair Blynedd er mwyn sicrhau gweithrediad, gyda trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer pob un o'r prif faterion, yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen. Mae aelodau yn ogystal â swyddogion wedi bod yn eistedd ar y Byrddau Rhaglen er mwyn cryfhau'r trefniadau democrataidd. Yn ogystal â'r Byrddau Rhaglen, mae 3 Prosiect Strategol sydd y tu allan i'r drefn bwrdd rhaglen sef Gwella Iechyd, Iaith a Cynllun Datblygu Lleol.

**Datganiad o'r cyfrifon.** Arwyddwyd y Datganiad Cyfrifon gan y Prif Swyddog Cyllid ar 30 Mehefin 2011. Cyflwynwyd y Datganiadau Drafft i'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Gorffennaf 2011, a'r Datganiadau wedi eu harchwilio i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi 2011.

**Strategaeth ariannol.** Ym Mawrth 2012, cyflwynwyd Strategaeth Ariannol Tair Blynedd i'r Cyngor, am y cyfnod 2012/13 hyd at 2014/15. Yn ei adroddiad, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: "*Dros yr hir dymor dengys y tafluniadau diweddaraf fod ein tafluniadau gwariant dros y 4 blynedd hyd at 2014/15 yn parhau i fod yn agos at ei le a bod y strategaeth ar gyfer dygymod a'r diffyg o tua £37m dros y cyfnod yn parhau i fod yn angenrheidiol. Dengys y sefyllfa ddiweddaraf ein bod yn llwyddo i wireddu'r cynlluniau i gwrdd â'r diffyg. Fodd bynnag wrth edrych ymhellach i'r dyfodol ymddengys y byddwn yn wynebu sefyllfa anoddach o lawer yn 2015/16 a 2016/17 a dylid dechrau cynllunio ar gyfer hynny nawr.*"

**Cwynion.** Caewyd cyfanswm o 39 adolygiad gan yr Ombwdsman yn dilyn honiadau o gamweinyddu yn ystod 2012/13. Cynhaliwyd 2 o'r honiadau hyn.

**Y gyfundrefn rheoli perfformiad.** Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o drefniadau cynllunio busnes a monitro perfformiad y Cyngor yn ystod 2011/12. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau gerbron y Grŵp Arweinyddiaeth a'r Grŵp Rheoli, gyda'r bwriad o liflinio'r broses, canolbwyntio ymhellach ar ddyheadau i'r dinesydd, a cynyddu nifer y mesuryddion ar gyfer effaith a deilliannau yn hytrach na mesur mewnbwn yn unig.

**Llythyr blynyddol yr Archwiliwr Allanol.** Yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2012 ac a gyflwynwyd i gyfarfod ar y cyd o Fwrdd y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Mawrth 2012, dywedodd yr Archwilydd:

"*Mae'r ansawdd gwell ar gynllunio'r Cyngor a'i barodrwydd cynyddol i fyfyrio ar ei berfformiad yn awgrymu ei fod mewn sefyllfa dda i wella ar y cynnydd cyson a wnaed yn 2010-11 ac i ddangos effaith ei weithgarwch yn well*".

**Egwyddor Graidd 2: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi eu diffinio'n glir.**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Cynlluniau dirprwyo.** Derbyniodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Gysyniad Brenhinol ym Mai 2011. Canlyniad y Mesur oedd adolygiad cynhwysfawr o drefniadau cyfansoddiadol yr Awdurdod, a cyflwynwyd addasiadau i'r Cyfansoddiad i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 17 Mai 2012. Dewisodd y Cyngor fabwysiadu model Arweinydd a Chabinet, yn unol â'r dewisiadau oedd ar gael iddo o dan y Mesur, yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2011, i ddod yn weithredol yn dilyn etholiad Mai 2012. Y prif newid i drefniadau'r Cyngor ydi fod hawliau penderfynu ar a gweithredu mwyafrif helaeth o swyddogaethau'r awdurdod yn trosglwyddo oddi wrth y Cyngor i'r Weithrediaeth.

Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiadau o'i holl drefniadau llywodraethu er mwyn cydymffurfio gyda'r Mesur. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sylfaenol yn y Rôl Weithredol, gyda cyflwyniad Cabinet yn hytrach na Bwrdd. Mae hefyd wedi golygu adolygiadau a newidiadau yn rolau Trosolwg a Chraffu, ac Archwilio, a sefydlu rôl newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**Egwyddor Graidd 3: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Cynllun Archwilio Mewnol.** Cwblhawyd 99.12% o gynllun Archwilio Mewnol 2011/12 erbyn 31 Mawrth 2012, sef 112 darn o waith allan o 113.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod gan Cyngor Gwynedd, yn ei farn ef, fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor. Yn ei adolygiad ddiweddaraf daeth yr archwilwyr allanol i'r casgliad fod gan Cyngor Gwynedd wasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, sy'n cwrdd yn llawn â 10 o'r 11 safon proffesiynol yn llawn. Roedd yn cwrdd yn rhannol â'r safon "Annibyniaeth" oherwydd dyletswyddau eraill yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y tu hwnt i Archwilio Mewnol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pwyllgor yn cadw goruchwyliaeth fanwl ar lwyddiant archwilio mewnol i gwblhau ei gynllun archwilio ac i gynnal archwiliadau dilyniant mewn meysydd ble adnabuwyd methiant mewn rheolaeth fewnol. Mae'r Pwyllgor yn galw rheolwyr a Phenaethiaid yn atebol pan fu methiant i weithredu gwelliannau disgwyliedig i reolaethau mewnol.

**Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd.** Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau gwrth-dwyll a gwrth-lygredd y Cyngor gan Archwilio Mewnol yn ystod 2011/12, gan ddefnyddio arf diagnostig a ddarparwyd gan CIPFA er mwyn cynnal hunanasesiad o wydnwch yr awdurdod i wrthsefyll risg twyll. Ar sail system sgorio "RAG" (h.y. Coch, Melyn, Gwyrdd), roedd y Cyngor yn sgorio'n felyn ar y cyfan, sef risg canolig. Darparwyd cynllun gweithredu er mwyn cau'r bylchau a adnabuwyd yn ystod y dadansoddiad.

**Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.** Yn ei adroddiad blynyddol, adroddwyd gan y Pwyllgor Safonau, "*Penderfynodd y Pwyllgor ofyn i Gyngor Gwynedd ddatblygu hyfforddiant safonol a hawdd ei ddefnyddio ar y côd Ymddygiad ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref y sir.*

*Fel canlyniad, cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i Aelodau Cyngor Gwynedd ym mis Mai [2011] yn canolbwyntio ar fuddiannau personol o dan y Cod. Bydd y deunydd a ddatblygwyd ar gyfer y sesiwn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn yr hyfforddiant sy'n cael ei ddatblygu yn genedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer cynghorau tref a chymuned.*"

**Egwyddor Graidd 4: Cymryd penderfyniadau thryloyw ac ar sail tystiolaeth sy'n cael eu craffu yn effeithiol a rheoli risg.**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Rheolau gweithdrefn trosolwg a chraffu.** Bu gweithdrefnau trosolwg a chraffu yn destun adolygiad manwl yn ystod 2011/12, mewn ymateb i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cam allweddol yn y broses yma oedd adroddiad i'r Cyngor llawn ar 15 Rhagfyr 2011. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Cyngor sefydlu 3 Pwyllgor Craffu 18 aelod yr un, Strategol a Datblygu, Cefnogi Cymunedau a Darparu Gwasanaethau, a cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio i 18 aelod etholedig a bod y pwyllgor hwnnw'n gweithredu rhai dyletswyddau trosolwg a chraffu hefyd.

**Strategaeth rheoli risg.** Mae'r trefniadau rheoli risg y Cyngor wedi bod yn destun adolygiad fewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i ofynion statudol y Pwyllgor Archwilio o Fai 2012, yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol.

**Egwyddor craidd 5: Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Rhaglen anwytho aelodau newydd.** Datblygwyd ymhellach y trefniadau anwytho aelodau newydd yn ystod 2011/12, wrth baratoi ar gyfer etholiadau'r Cyngor ar 3 Mai 2012.

**Strategaeth hyfforddi aelodau.** Ar 1 Mawrth 2011, mabwysiadwyd y canlynol gan y Cyngor i fod yn rhan o'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Aelodau:

1. Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
2. Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldebau ar gyfer Aelodau Craffu
3. Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion
4. Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Aelodau Craffu

Bu datblygiadau pellach yn y rhaglen hyfforddi i aelodau, o dan arweiniad yr Uned Dysgu a Datblygu.

**<u>Cynllun datblygu a hyfforddi swyddogion.</u>** Mae trefniadau hyfforddi uwch swyddogion wedi parhau, gan gynnwys datblygiad parhaus y matrics hyfforddi ar gyfer swyddogion. Ymysg yr hyfforddiant a gyflwynwyd i brif swyddogion ac uwch reolwyr yn ystod 2011/12 oedd cwrs Rheoli Newid y Llwyddiannus a ddarparwyd gan PSMW (Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru) ar gyfer Gwynedd a 5 sir arall gogledd Cymru.

**Egwyddor craidd 6: Ymgysylltu gyda phobl leol a budd-ddeiliad eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus cadarn.**

**Mae Cyngor Gwynedd wedi defnyddio'r prosesau canlynol wrth gynnal ac adolygu effeithlonrwydd ei drefniadau:**

**Adroddiad blynyddol craffu.** Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2010-2011 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2011. Roedd yr adroddiad yn ymhelaethu ar y prif wahaniaethau wnaed yn sgil gwaith y Pwyllgorau Craffu a'r Gweithgorau Gwella. Roedd hefyd yn cynnwys eu llwyddiannau eraill a'u blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod

**Adroddiad blynyddol "Cyrhaeddiad y Cyngor".** Cymeradwywyd Cynllun Gwella 2010/11 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2011. Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r ddogfen fel adlewyrchiad cywir a theg o'i lwyddiannau a methiannau yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2010/11.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod y materion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

- Mae nifer o gyrff allanol yn cynnal adolygiadau ar drefniadau'r Cyngor. Bydd yr adrannau perthnasol yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi eu hadnabod.
- Cyflwynwyd y gweithdrefnau Rheoli Rhaglen er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y camau sydd angen eu cyflawni er mwyn cwblhau'r tasgau a adnabuwyd yn y Cynllun Tair Blynedd, yn ogystal â chamau gweithredu allweddol eraill. O'r herwydd, mae gweithrediad llwyddiannus y gyfundrefn Rheoli Rhaglen yn fater llywodraethu arwyddocaol ynddo'i hun.
- Bydd datblygu ac atgyfnerthu'r drefn lywodraethu newydd a gyflwynwyd yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn parhau'n her arwyddocaol wrth i'r Cyngor symud i drefn Arweinydd a Chabinet yn dilyn etholiadau Mai 2012
- Fel rhan o'r Prosiect Democratiaeth Lleol, bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu rôl amgen ar gyfer cynghorwyr fel cynrychiolwyr lleol, a threfn llywodraethu wedi ei sefydlu sydd yn dal y cabinet i gyfrif.
- Y côd Llywodraethu Lleol. Mabwysiadwyd y côd Llywodraethu Lleol yn Ebrill 2011. Roedd felly yn gynamserol i'w adolygu yn ystod 2011/12 ond byddai'n fuddiol cynnal adolygiad cyntaf yn ystod 2012/13.
- Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd. Mae angen diweddaru'r Polisi Gwrth-dwyll a Gwrthlygredd i ymgorffori Deddf Llwgrwobrwyaeth 2010, a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio am gymeradwyaeth.
- Llawlyfr Canllawiau i Gadeiryddion. Mae hwn yn un o gonglfeini'r côd Llywodraethu, a bydd angen ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2012/13.
- Côd Ymarfer "Canu'r Gloch". Er fod côd ymarfer yn ei le ac yn parhau'n berthasnol, awgrymir y dylid rhoi ymdrech bellach i godi ymwybyddiaeth ohono yn ystod 2012/13 fel rhan o broses llywodraethu dda.
- Cynllun datblygu personol aelodau. Bydd gwaith pellach i gyflwyno cynlluniau datblygu personol aelodau yn cael ei gynnal yn ystod 2012/13
- Cynllun olyniaeth. Mae'r Cynllun Olyniaeth wedi ei nodi yn y côd Llywodraethu Lleol fel un o'r polisïau sydd yn cefnogi'r Cyngor. Bydd angen gwaith datblygu pellach ar y cynllun hwn yn ystod 2012/13.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **HARRY THOMAS** | **Cyng. DYFED WYN EDWARDS** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |